**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Jane Hutt AC
Gweinidog Busnes y Llywodraeth
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

26 Mawrth 2015

Annwyl Jane

**Ymchwiliad: Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad**

Diolch ichi am roi tystiolaeth inni ar 16 Mawrth 2015 mewn cysylltiad â'r ymchwiliad uchod.

Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch gynnig darparu rhagor o wybodaeth am nifer o bwyntiau, sef:

- gwybodaeth am y protocol ar gyfer Papurau Gwyn y llywodraeth a Biliau drafft (paragraff 18 o'r trawsgrifiad drafft). Byddai o gymorth pe gallech egluro ai'r protocol hwn yw'r protocol rydych yn cyfeirio ato ym mharagraff 39 o'r trawsgrifiad drafft o ran ymgynghori ac a yw hefyd yn cynnwys y canllawiau datblygu polisi rydych yn eu dilyn cyn cyflwyno Bil, y cyfeirir atynt hefyd ym mharagraff 39;

- nodyn am y newidiadau a wnaed i'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) drafft o ganlyniad i ymgynghori cyn ei gyflwyno wedi hynny (paragraff 32 o'r trawsgrifiad drafft).

Yn eich tystiolaeth, rydych hefyd yn cyfeirio at adolygiad a gynhaliwyd gan y Prif Weinidog yn 2013 (paragraff 57 o'r trawsgrifiad drafft). Byddai'n ddefnyddiol cael nodyn ar yr adolygiad hwn yn cynnwys y canlyniad a'r effaith yr ydych yn gobeithio y bydd yn ei chael ar ddrafftio deddfwriaeth.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6362
E-bost / E-mail: gareth.williams@cynulliad.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Nid oeddem wedi gallu archwilio eich barn ar Filiau Aelodau yn yr amser oedd ar gael. Byddai o gymorth pe gallech egluro:

- pryd mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymgysylltu â Bil Aelod yn dilyn llwyddiant Aelod Cynulliad mewn pleidlais?

- pa ymgysylltiad, fel rheol gyffredinol, a gewch gydag Aelod Cynulliad a'i Fil /Bil Aelod yn ystod y cyfnodau amrywiol o'r broses ddeddfwriaethol a beth yw hyd a lled yr ymgysylltiad hwnnw?

- sut mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar ran yr Aelod ynghylch materion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol?

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl ac erbyn 16 Ebrill 2015 fan bellaf.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**